

## **Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc: 18 Mehefin 2019**

### **Sesiwn Dystiolaeth Gyntaf yr Ymchwiliad i weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc Llywodraeth Cymru**

#### **1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau**

##### **Yn bresennol:**

##### **Aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol**

Dr Dai Lloyd AC  
Nick Ramsay AC

##### **Aelod Cynulliad arall**

Mark Isherwood AC

##### **Yn rhoi dystiolaeth**

Pip Ford, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi  
Carol Bott, Cymdeithas Strôc  
Dr Alison Stroud, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT)

##### **Eraill a oedd yn bresennol**

Gareth Lee, Uned Gyflawni'r GIG  
Katie Chappelle, Cymdeithas Strôc  
Matt O'Grady, Cymdeithas Strôc  
David Fitzpatrick, Goroeswr Strôc  
Elaine Scale, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Belinda Done, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd:  
Claire Butterworth, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi  
Anurag Saxena, Ysbyty Plant Arch Noa  
Alexander Smith, Cymrawd Ôl-raddedig y Gymdeithas Strôc  
Nigel Howells, AMGEN  
Stephen Davies, Cydweithfa Iechyd GIG Cymru  
Sarah Griffiths, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol  
Jodie Williamson, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol  
Callum Hughes, Confederasiwn GIG Cymru  
Iwan Williams, Gofal Cymdeithasol Cymru  
Alun Walters, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Tabitha Mansel-Thomas, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Emma Henwood, Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru  
Claire Thirsk, Ysbyty Plant Arch Noa  
Nick Cann, Goroeswr Strôc  
Niwrolegydd Pediatrig - Enw i'w gadarnhau

## **Drwy gyswllt fideo**

Jill Newman, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

### **Ymddiheuriadau:**

Dr Phil Jones, Arweinydd Clinigol Llywodraeth Cymru ar gyfer Strôc  
Dr Fiona Jenkins, Grŵp Gweithredu Strôc  
Paul Mayberry, Fferyllfa Mayberry  
Peter Carr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
Shelia Tagholm, Pwyllgor Ymgynghorol Cymreig y Gymdeithas Strôc  
Stephen Ray, Cynrychiolydd Bayer / ABPI i'r Grŵp Trawsbleidiol  
Rachel Jenkins, Pfizer  
Jeannie Wyatt-Williams, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
James White, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf  
Ann Lloyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
Elin Edwards, RNIB Cymru

## **2. Cymeradwyo cofnodion**

Cymeradwywyd gan y Grŵp

### **3. Diweddariad ar gynnydd o ran camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf; y ffordd ymlaen**

Mae Sefydliad Prydeinig y Galon wedi ymuno â grŵp gorchwyl a gorffen y Grŵp Trawsbleidiol.

## **4. Sesiwn dystiolaeth: Bywyd ar ôl Strôc**

### **Pip Ford, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi**

Wrth baratoi ar gyfer hyn, anfonodd y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi holiadur at fyrddau iechyd; darparodd chwe Bwrdd Iechyd wybodaeth. Gofynnodd y Gymdeithas gyfres eang o gwestiynau am wasanaethau strôc gan gynnwys:

- Sut mae gwasanaethau adsefydlu wedi gwella ers cyflwyno'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc?
- Sut ydych chi wedi datblygu gwasanaethau Rhyddhau yn Gynnar gyda Chefnogaeth (ESD)?
- A all cleifion gael gafael ar wasanaethau adsefydlu cymunedol a gwasanaethau dydd?
- A all goroeswyr strôc gael ail-fynediad at ffisiotherapi?
- A yw goroeswyr strôc yn cael adolygiad chwe mis?
- A yw gwasanaethau ffisiotherapi yn cyfeirio at wasanaethau eraill?

C - Sut mae gwasanaethau strôc wedi gwella ers 2017?

Rhai enghreifftiau o arfer da o bob cwr o Gymru:

- Tim Niwro-Adsefydlu Cymunedol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, adborth cadarnhaol gan oroeswyr, hunan-atgyfeiriad ar gael a'r tîm yn cyfeirio ymlaen, gan gynnwys at wasanaethau bywyd ar ôl strôc.
- O ran Cwm Taf Morgannwg yn datblygu'r gwasanaethau Rhyddhau yn Gynnar gyda Chefnogaeth mae'r data yn dangos eu bod wedi torri hyd arosiadau. O ran mynediad at ailalluogi, gall cleifion gael ail-fynediad at ffisio, a phwysigrwydd hunanreoli.
- Mae Bwrdd Iechyd Betsi wedi newid i'r drefn o weithio 7 diwrnod ers mis Ionawr 2018. Er nad yw'n glir a yw hyn yn cael ei wneud o staffio 5 diwrnod. Clinigau teulu rheolaidd, i reoli disgwyliad o ran adferiad; gosod nodau cyfannol.
- Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cynnal gwasanaeth arbenigol ar gyfer sbastigrwydd. Byddent yn hoffi parhau â'u prosiect allgymorth cymunedol ffisio strôc ar ôl Mawrth 2020 ond mae'r cyllid yn aneglur. Maen nhw'n trin cleifion yn eu cartrefi eu hunain ac yn cynnal clinigau arbenigol.
- Caerdydd a'r Fro – rhagor o fynediad at grwpiau, cynyddu'r lleoliadau cymunedol, rhagor o gefnogaeth staffio ar gyfer gweithio saith diwrnod. Ymarferion grŵp a chymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil.

Ar y cyfan, fe wnaethant nodi beth roedd y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi yn deimlo a oedd yn waith da a wnaed ledled Cymru ac annog gweld byrddau iechyd yn pwyntio at hunan-atgyfeiriad.

C - Beth yw'r rhesymau dros ddiffyg cynnydd?

Her o ran staffio, ynghyd â dim cynnydd parhaol o ran cyllid. Ariannu ar gyfer cynlluniau peilot a chyllid tymor byr yn unig, heb unrhyw gynnydd sylweddol. Mae absenoldeb mamolaeth a salwch yn creu heriau.

Mae byrddau iechyd yn adolygu ac yn ail-ddylunio, er mai un sylw oedd: "Fe ddechreuon ni y trafodaethau hyn chwe blynedd yn ôl, a does dim gwelliant."

Her i ddarparu gwasanaeth saith diwrnod yr wythnos, ond hefyd i ddarparu a chefnogi rhyddhau yn gynnar â chefnogaeth, er bod gwasanaethau allgymorth eraill ar gael.

C - Sut ydych chi'n gweld dyfodol y Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc ar ôl 2020?

Mae angen canolbwyntio ar strôc, neu fel arall bydd yn cael ei gollu fel maes arbenigedd. Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc wedi gorfodi Byrddau Iechyd i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth. Daeth peth buddsoddiad gyda'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc a'r cynllun Cyflawni Niwro. Mae'n ymddangos bod rhybudd bod y ffocws yn rhy aml ar yr ochr aciwt a bod ailsefydlu yn cael ei anghofio. Mae'r Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi yn pryderu am gyllid tymor byr.

C – Pa ran sydd gan waith ymchwil?

Mae hwn yn hanfodol. Mae pryderon, fodd bynnag, nad oes gennym y gallu i ryddhau pobl o'u llwyth gwaith i wneud rhagor o waith ymchwil.

Sylwadau eraill

Mae ffisiotherapyddion i'w cael mewn gwasanaethau gofal effeithiol, cyflym, diwedd oes - ym mhob maes iechyd, nid adsefydlu yn unig.

Tri argymhelliad:

- Mae angen ffocws llawer mwy ar Adsefydlu - nodi blaenoriaethau
- Mae angen i sefydliadau fynd i'r afael â lefelau staffio therapi ar gyfer adsefydlu
- Mae angen canolbwyntio ar adferiad strôc beth bynnag a ddaw ar ôl 2020

#### **Dr Alison Stroud, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith**

Fe wnaethant hefyd ddarparu holiadur i'w haelodau, gan gynnwys y rhwydwaith rhagoriaeth glinigol ar gyfer therapi lleferydd ac iaith a strôc. Dangosodd yr adborth fod rhagor o fuddsoddiad wedi bod yn sgîl y Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc yn gyffredinol. Mae rhagor o'r buddsoddiad hwn wedi bod ar yr ochr aciwt, ond cytunir yn gyffredinol bod hyn wedi arwain at ragor o gapasiti.

Roedd pryder bod targedau SSNAP yn sbardun ar gyfer cynhyrchiant yn hytrach nag ansawdd. Mae Therapyddion Lleferydd ac iaith yn defnyddio mesurau canlyniadau sy'n ymwneud â nam ond hefyd yn ymwneud â rheoli risg o niwed ac atal effaith swyddogaethol. Gwnaed argymhelliad y dylai unrhyw gynllun cyflawni yn y dyfodol ganolbwyntio ar PROMs a PREMs, nid canlyniadau cynhyrchiant yn unig.

Dim ond 100 o therapyddion iaith a lleferydd sy'n gweithio mewn gwasanaethau oedolion ledled Cymru, ac felly nid oes llawer o therapyddion ar gael ar gyfer strôc. Nid yw SSNAP yn amlgu a oes therapydd iaith a lleferydd wedi'i gynnwys mewn tîm Rhyddhau yn Gynnar gyda Chefnogaeth.

Rhoddyd enghraifft o waith cadarnhaol gan Brifysgol Met Caerdydd, sy'n defnyddio'r Gymdeithas Strôc ar gyfer lleoliadau i fyfyrwyr - ond yr her yw cydbwysu adsefydlu yn erbyn y sector aciwt sy'n dal y sylw bob amser. Mae therapyddion lleferydd ac iaith 'yn ofidus o gael eu defnyddio'n gyson' i wneud llawer o waith rheoli risg o ran llyncu ac nid yw lleferydd ac iaith bob amser yn cael eu blaenoriaethu gan eraill. Mae angen rhagor o hyfforddiant rhyngddisgyblaethol ar lefelau israddedig, fel bod dim rhaid i therapyddion lleferydd ac iaith ymdrin â llyncu ac ati.

Teimlwyd bod elfen ymchwil y Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc yn ddefnyddiol - er enghraifft yr offeryn sgrinio 'pen' sydd wedi'i weithredu ar draws Cymru gyfan.

Commented [HE(CyC|AC1):

Gellid hwyluso canlyniadau da gan dechnoleg newydd, ond mae cynnydd yn rhy araf. Mae darn cyfochrog o waith ar gymorth estynedig wedi derbyn canllawiau yn sgîl cylchlythyr lechyd Cymru, ond rydym yn dal i aros am ganllawiau i gleifion strôc.

### **Carol Bott, Cymdeithas Strôc**

Mae'r Gymdeithas Strôc yn gweithio mewn amgylchedd sy'n gynyddol anodd, mae'r incwm a gomisiynir yn lleihau, ac rydym yn cystadlu am incwm gwirfoddol mewn marchnad gystadleuol.

Mae ein gwasanaeth adfer strôc yn darparu cymorth un-i-un wedi'i deilwra, ac mae'n gweithredu ym mhob Bwrdd lechyd ac eithrio dau. Rydym hefyd yn cefnogi caffis niwro, Prosiect Phoenix ac ati ar gyfer goroeswyr strôc o oedran gweithio a gallwn gyfeirio at linell gymorth. Fodd bynnag, mae bylchau ac mae angen rhagor o fuddsoddiad. Mae ein gwaith ymchwil Byw Profiad o Strôc, a gyhoeddir heddiw, wedi holi 600 o bobl yng Nghymru. Dywedodd 94% eu bod wedi profi effaith wybyddol o'u strôc, sy'n profi, er gwaethaf ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc, nad yw llawer o bobl yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae'r bylchau a nodwyd gennym yn cynnwys:

- Er bod 93% o oroeswyr strôc yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn cael mynediad at Therapydd Lleferydd ac iaith o leiaf unwaith - dim ond 20% sydd yn cael y gwasanaeth yn Ysbyty Treforys. Mae goroeswyr strôc yn crybwyll therapyddion lleferydd ac iaith gyda ni'n amlach na neb arall.
- Hywel Dda - bylchau sylweddol o ran adsefydlu. Mewn rhai ardaloedd, nid oes gwasanaeth Rhyddhau yn Gynnar gyda Chefnogaeth ar gael, er bod y Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc yn dweud y dylai fod ar gael.
- Dim ond ar hap y mae adolygiadau 6 misol yn cael eu cynnal ar draws Cymru
- Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc yn cydnabod rôl cefnogaeth cyfoedion, ond mae arferion comisiynu cyfredol yn golygu bod y rhain yn debygol o ostwng.

### **Cwestiynau gan y Grŵp Trawsbleidiol i'r panel:**

Dywedodd JN bod awydd enfawr i ymgysylltu rhagor â chleifion o ran Bywyd ar ôl Strôc. Mae Bwrdd lechyd Betsi Cadwaladr yn gweithio gyda mudiadau trydydd sector i alluogi cleifion i fwynhau bywyd ar ôl strôc. Cytunir â phwysigrwydd gofal meddygol a gofal clinigol ar ôl strôc, ond mae angen galluogi'r trydydd sector ar gyfer cefnogi cleifion a'u teuluoedd.

Dywedodd SD ei fod yn ymwybodol na all rhai cleifion oddef 45 munud o therapi. A yw hyn yn broblem? Dywedodd PF fod hyn yn broblem gyda data SSNAP. Nid yw rhai pobl yn gallu ymdopi â 45 munud o driniaeth.

Ymatebodd AS gan ddweud mai dyma un o'r materion o ran data, ac mae targedau SSNAP wedi'i seilio ar ymchwil Therapyddion Lleferydd ac iaith ar gyfer nam

lleferydd penodol. Mae hwn wedi dod yn darged ar gyfer popeth, ac nid yw bob amser yn briodol.

Gofynnodd MO ynghylch y rhesymau am yr amrywiadau o ran nifer y bobl sy'n cael y 45 munud o therapi bob dydd a argymhellir gan Goleg Brenhinol y Ffisiotherapyddion. Ym Mronglais mae'n 5.1%, yng Nglan Clwyd, 37.2%. Beth yw'r rhesymau am yr amrywiadau eang, - nid rhesymau clinigol does bosibl?

Nododd PF ei fod yn aml yn fater staffio. Gall triniaeth fod yn ddwys o ran llafur, ac weithiau mae angen dau / tri o bobl ar ei gyfer. Mae hon yn broblem. Hefyd os yw'n wasanaeth saith diwrnod, ni ellir darparu llawer iawn o staff.

Dyweddodd DF fod yr effeithiau mor wahanol. Chwe wythnos o gefnogaeth yw'r uchafswm. Roedd yn gefnogaeth dda, ond nid oedd yn ddigon iddo ef. Gan ei fod wedi cael strôc fach, nid oedd rhai pethau ar gael. Mae asesiadau o'r unigolyn a'r driniaeth yn amrywio.

Amlygodd AS mai dyma pam mae PREMs yn bwysig. Rydym am symud tuag at drin pobl yn gyflym, sef pobl a all elwa ar ychydig o therapi e.e strôc fach. Dyma lle y dylem fuddsoddi'r arian.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch amseroedd aros o gymharu â chefnogaeth gymunedol. Gall buddsoddi yn y gymuned ysgogi gwelliant. Mae angen i ni fynd allan at y cleifion e.e. sgrinio'r fron.

Esboniodd BD y broses o adael yr ysbyty a'r tîm Rhyddhau yn Gynnar gyda Chefnogaeth yn cymryd yr awenau. Mae datblygiadau o ran gwasanaethau cymunedol niwro a strôc yn golygu bod pontio mwy di-dor i grwpiau cymunedol. Mae grwpiau amrywiol yn cefnogi o ran materion gwahanol, gan gynnwys blinder ac ati. Yn sgîl rhagor o wasanaethau cymunedol mae rhestrau aros ysbytai wedi lleihau'n sylweddol.

Dyweddodd SG fod fferyllwyr yn ymdrin â llawer o broblemau gyda meddyginiaeth ac mae'n anodd eu didoli gan nad yw fferyllwyr yn y tîm strôc, a all arwain at fod therapyddion yn gorfod ymdrin â meddyginiaethau ac ati. Byddent yn hoffi gweld penderfyniadau yn cael eu gwneud ar y cyd â chleifion. Er enghraifft, cafodd claf ei ryddhau o'r ysbyty â meddyginiaeth nad oedd yn ystyried ei broblemau gwybyddol. Roedd hyn yn anodd ei godi yn y lleoliad aciwt. Mae tîm 'Eich meddyginiaethau gartref' yn dîm yn y gymuned a all wneud hyn.

Gwnaed pwynt bod gwahaniaeth rhwng timau o ran amseroedd aros. Defnyddiwyd yr enghraifft nad oes gan Gaerdydd a'r Fro wasanaeth Rhyddhau yn Gynnar gyda Chefnogaeth mewn gwirionedd, felly mae cleifion yn aros 14 wythnos am apwyntiad cleifion allanol.

Dyweddodd PF mai dim ond dau Fwrdd Iechyd sy'n cydnabod eu bod yn darparu gwasanaeth Rhyddhau yn Gynnar gyda Chefnogaeth. Ynghylch: Mynediad yn y

gymuned: mae amrywiaeth eang o wasanaethau dilynol ar gael drwy dimau adnoddau cymunedol, nid arbenigwyr strôc mohonynt bob amser, ond bydd gan rai aelodau o'r tîm arbenigedd penodol. Fodd bynnag, mae'r ffocws yn aml ar y sector aciwt, ac mae cael adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymunedol yn broblem.

Amlygwyd nad yw'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc yn cynnwys strôc plentyndod fel cylch gorchwyl. Ond bydd y rhai sydd wedi goroesi yn dod yn oedolion sydd wedi goroesi strôc. Mae bywyd ar ôl strôc yn ystod plentyndod yn broses hir a gallai problemau godi yn y dyfodol hirdymor. Rwy'n ei chael hi'n anodd trosglwyddo'r goroeswyr hyn i wasanaethau oedolion. Ni fydd rhai seicolegwyr yn eu derbyn tan eu bod yn 18 mlwydd oed, er enghraifft, ac mae rhai seicolegwyr plant nad ydynt yn rhoi eu gwasanaeth ar ôl i'r plentyn droi'n 16 oed. Beth yw'r ffordd orau i ni gefnogi plant sydd wedi cael strôc?

Dyweddodd CB fod y Gymdeithas Strôc yn cynnig gweithio gyda'r tîm ar hyn. Mae gan y Cynllun Cyflawni adran fach ar strôc plentyndod, ond nid yw'n ddigon manwl. Nododd CB nad yw hyn yn uchel ar yr agenda ar hyn o bryd. Amlygodd MO fod strôc plentyndod yn cael ei grybwyll yn y Cynllun Cyflawni, ond ychydig iawn o fanylion sydd ynddo.

Dyweddodd MO fod y Cynllun Cyflawni yn nodi pwysigrwydd adolygiadau chwe mis ac adolygiadau blynyddol. A fydd hyn yn digwydd?

Dyweddodd BD ac AS fod gan Therapyddion Lleferydd ac Iaith Hunan-atgyfeiriad mynediad agored i bob claf, sy'n mynd y tu hwnt i adolygiadau chwe mis ac adolygiadau blynyddol. Ond mae ceisio cael pobl i ymwneud â'r gwasanaeth yn anodd – mae cleifion yn teimlo bod angen i'r atgyfeiriad ddod gan weithiwr iechyd proffesiynol. Gallai adolygiadau chwe mis a 12 mis fod yn rhy ragnodol hefyd. Rydym yn ceisio canolbwyntio ar y claf unigol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio gydag anwyliaid a gofalwyr i barhau â therapi lleferydd ac iaith gartref. Dywedodd PF mai arbenigwyr nyrsio, yn hytrach na therapyddion, sy'n tueddu i gynnal yr adolygiadau blynyddol.

Dyweddodd NC a DF, fel goroeswyr Strôc, nad oeddent erioed wedi cael adolygiad. Crybwyllodd CB fod hyn yn adleisio gwaith ymchwil y Gymdeithas Strôc, a ganfu fod 45% o oroeswyr yn dweud eu bod yn teimlo unigedd ar ôl eu rhyddhau o ysbyty. Soniodd SG fod fferylliaeth â'r potensial i fod yn rhan o'r elfen adolygu meddyginiaeth o'r adolygiadau chwe mis.

Ymatebodd JN drwy ddweud bod y Gymdeithas Strôc yn darparu adolygiadau ar ein rhan, a bod gwahanol ddulliau o ran yr adolygiad hwn. Cytunwyd bod gwerth mewn edrych ar hyn yn gyfannol.

Dyweddodd PF fod adborth bod cefnogaeth seicolegol yn faes sydd heb lawer o adnoddau. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn ariannu'r Gymdeithas Strôc ac mae therapyddion yn dibynnu ar y maes cymorth hwn, yn enwedig o ran cefnogaeth

seicolegol. Mae gwasanaethau'r Gymdeithas Strôc yn hanfodol ar gyfer y dyfodol, ond mae perygl na fydd unrhyw gyllid am yr hirdymor.

Nododd y Cadeirydd ymddeoliad PF cyn bo hir, a diolchodd am ei gwaith.

### **Cylch gorchwyl yr Ymchwiliad i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc**

Wedi'i ddsbarthu i'r Grŵp. Ailadroddodd y Cadeirydd y gellir cyfrannu tystiolaeth i'r ymchwiliad ar unrhyw adeg, nid yn unig yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp y bydd galwad am dystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei chyhoeddi yn ystod yr haf, a gofynnir i Fyrddau lechyd Lleol gyfrannu. Gwahoddodd y Cadeirydd y Grŵp i anfon neges e-bost ato ef neu Matt i gyflwyno unrhyw gwestiynau a / neu sylwadau pellach.

**Dyddiadau, amser a lleoliad y cyfarfod nesaf: 15 Hydref, 12.30-13.30. Yr ystafell i'w chadarnhau.**

**Pwnc ar gyfer y cyfarfod nesaf: Atal Strôc**

**Diwedd y cyfarfod**